

SWYDD DDISGRIFIAD **ANOGWR DYSGU CA3**

YSGOL:	Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr
SWYDD:	Anogwr Dysgu CA3
GRADD SWYDD:	Gradd 4, pwynt 21.
CYTUNDEB:	37 awr/wythnos, 39 wythnos/flwyddyn
YN ATEBOL I:	Arweinydd Cynnydd.

Pwrpas y swydd:

I gydweithio'n agos gyda thîm cynnydd CA3 yn benodol. Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus fedru arddangos gweledigaeth glir o'r modd y gall Anogwr Dysgu gyfrannu at godi safonau cyrhaeddiad disgyblion, monitro a chefnogi cynnydd disgyblion a datblygu sgiliau dysgu annibynnol dysgwyr.

Edrychir am ymgeisydd egniol, brwdfrydig ac uchelgeisiol fydd yn medru cyfrannu'n fawr at arwain datblygiad pellach yn y maes dros y blynyddoedd nesaf ac a fydd yn rhannu gweledigaeth gynhwysol yr ysgol.

Prif gyfrifoldebau a gweithgareddau:

- magu perthynas iach a gweithredol gyda dysgwyr gyda ffocws penodol ar godi lefelau cyrhaeddiad;
- adnabod a dileu unrhyw rwystrau i ddysgu, i gefnogi'r dysgwr, a throi at gymorth arbenigwyr pan yn briodol;
- cefnogi'r dysgwyr wrth adnabod targedau a gwneud penderfyniadau gwybodus;
- gweithio'n agos gyda staff ysgol, rhieni ac asiantaethau perthnasol arall i sicrhau bod y profiadau dysgu yn briodol i anghenion yr unigolyn;
- cynnig cymorth i ddysgwyr i adnabod eu dulliau dysgu, ac annog a mentora'r dysgwyr i ddysgu'n fwy effeithiol;
- monitro cynnydd academaidd y dysgwyr a chynnig gofal emosiynol, anogaeth, arweiniad a chefnogaeth pan fo'n addas er mwyn sicrhau cynnydd;
- cynnig cymorth i ddysgwyr i osod targedau realistig ac addas a'u cefnogi wrth iddynt asesu perfformiad a chyrhaeddiad;
- cyfrannu'n adeiladol ac yn ymarferol at unrhyw gyfnod o drawsnewid ym mywyd addysgol y dysgwyr gyda phwyslais ar sicrhau ymddygiad addas ar gyfer dysgu;
- ennyn dealltwriaeth o'r wybodaeth a'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc;

- bod yn ymwybodol o gyfreithiau a rheolau Diogelu Plant (Child Protection) ac i weithredu o fewn i ganllawiau'r ysgol;
- sicrhau cyfle cyfartal i bob dysgwr;
- cynnig cymorth i ddysgwyr i adnabod cyfleoedd i ddefnyddio sgiliau dysgu gan gynnwys sgiliau Rhifedd, Llythrennedd a Chymhwysedd Digidol yn llwyddiannus;
- gweithio'n agos gyda'r dysgwr i sicrhau cofnod o'r profiadau dysgu;
- Cydweithio gyda'r timau cynnydd ar brojectau penodol gyda charfannau penodol o ddisgyblion e.e. Dysgwyr PYDd, Dysgwyr o dan ofal yr Awdurdod Addysg neu Ddysgwyr MAaD.

Bydd deiliad y swydd yn atebol i'r Corff Llywodraethol drwy Arweinydd Cynnydd 8 a 9. Bydd disgwyl i ddeiliaid y swydd i fedru delio gyda sefyllfaoedd sydd yn codi ac i gefnogi trefniadau gweinyddol Ardal Cynnydd CA3 o ddydd i ddydd.

ANOGWR DYSGU Manylion Personol

	Angenrheidiol	Yn ddelfrydol
Gradd neu gymhwyster perthnasol.		Y
Ymrwymiad i gefnogi'r dysgwr i gyrraedd targedau realistig o fewn yr ysgol, goleg neu leoliad hyfforddiant.	Y	
Gwybodaeth o gwricwlwm CA3 a 4.		Y
Profiad o gynnig cymorth a chefnogaeth sydd yn hybu sgiliau annibynnol ymysg pobl ifanc.	Y	
Profiad o gynnig cymorth i, ac o fentora pobl ifanc.	Y	
Y gallu i gynllunio cefnogaeth, arweiniad a mentora i ddysgwyr.	Y	
Profiad o weithio gydag asiantaethau allanol.		Y
Y gallu i asesu gofynion ac anghenion dysgu unigolion.	Y	
Ymrwymiad at ddatblygiad proffesiynol o fewn y maes.	Y	

Angenrheidiol	Yn ddelfrydol
<p>Cymwysterau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwybodaeth gyfoes am ddatblygiadau ym myd addysg a datblygiadau cwricwlaidd newydd. • Profiad o weithgareddau allgyrsiol. • Ymwybyddiaeth o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau allweddol yn enwedig llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. <p>Profiad</p> <ul style="list-style-type: none"> • O weithio gyda phobl ifanc. • Cyfrannu at broiect ysgol gyfan. • Profiad o gydweithio effeithiol gyda staff eraill. 	<p>Cymwysterau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus. <p>Profiad</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfrannu at weithgorau datblygu naill ai o fewn neu y tu allan i'r ysgol (e.e. Bwrdd Arholi, AALI, Urdd ayb) • Dealltwriaeth o drefniadau diogelu plant. • O ddefnyddio data tracio er mwyn cynllunio ymyraethau i ddisgyblion unigol

Athroniaeth

Ymroddiad i

- Amcanion a gweledigaeth addysg Gymraeg.
- Yr egwyddor o gynhwysiant cymdeithasol ac academaidd.
- Creu dysgwyr annibynnol.
- Ddatblygu sgiliau Llythrennedd a Rhifedd.
- Cyfle cyfartal i bawb.
- Cynnig cyfleoedd dysgu eang y tu hwnt i ffiniau'r Ysgol.
- Gwella parhaus drwy osod targedau heriol.
- Ddatblygu potensial a chreu cyfleoedd.

Medrau

Fe fydd angen i chi fod yn:

- Ddysgwr da.
- Fentor da.
- Gyfathrebwr da.
- Dechnolegol gryf (medrau T.G).
- Medru dylanwadu'n gadarnhaol ar eraill.
- Yn frwdfrydig, egnïol a hyblyg.
- Medru gweithio'n dda o fewn tîm
- Trefnus

Rhinweddau personol

- Y gallu i fod yn hyblyg wrth weithio.
- Disgwyliadau uchel ac ymrwymiad i safonau uchel.
- Y gallu i gydweithio gyda phobl yn effeithiol.
- Gweledigaeth glir, egni a brwdfrydedd.

Athroniaeth

- Parodrwydd i gofleidio nodau'r ysgol.
- Dealltwriaeth o gyfraniad y rôl i'r holl gwricwlwm a pharodrwydd i gydweithio ar brojectau gydag adrannau a sefydliadau eraill.

Enw:

Llofnod:

Dyddiad:

Dyddiad adolygu – Pob mis Medi fel rhan o'r broses rheoli perfformiad